Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Eich hawl chi i fyw'n annibynnol

## Y pethau y gwnaethoch chi ddweud am ein cynllun ni i gefnogi pobl anabl i fyw bywyd annibynnol.



Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn o **Gweithredu ar Anabledd: Ymgynghoriad ar Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol – Crynodeb o Ymatebion**

**Medi 2019**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.

Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **glas trwm**. Mae'n dweud beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd y gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto bydd yn cael ei ysgrifennu mewn glas cyffredin. Gallwch edrych ar beth mae'n feddwl yn Geiriau Anodd ar dudalen 31.

Pan fydd y ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru.** I gael mwy o wybodaeth cysylltwch ag:

**Cyfeiriad:** Adran Cydraddoldeb
Is-adran Cymunedau
Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

**E-bost:** CangenCydraddoldeb@llyw.cymru

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Cynnwys

**Tudalen**

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon** ........ **2**

**Cyflwyniad** ........ **4**

**Y pethau ddywedodd pobl** ........ **6**

Cwestiwn 1 ........ 7

Cwestiwn 2 ........ 9

Cwestiwn 3 ........ 10

Cwestiwn 4 ........ 12

Cwestiwn 5 ........ 15

Cwestiwn 6 ........ 17

Cwestiwn 7 ........ 19

Cwestiwn 8 ........ 21

Cwestiwn 9 ........ 24

Cwestiwn 10 ........ 25

Beth sydd wedi digwydd ers ein cynllun diwethaf ni ar gyfer byw'n annibynnol yn 2013 ........ 28

**Y camau nesaf** ........ **30**

**Geiriau Anodd** ........ **31**

# Cyflwyniad




Yn 2018 fe ofynnon ni i bobl beth roedden nhw'n ei feddwl am ein cynllun ni oedd yn cael ei alw'n:

**Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol a'r Cynllun Gweithredu.**



Gallwch chi ddarllen y cynllun hwn yma: [llyw.cymru/gweithredu-ar-anabledd-hawl-i-fywn-annibynnol?_ga=2.217381713.657533466.1568888806-36054218.1549639811](llyw.cymru/gweithredu-ar-anabledd-hawl-i-fywn-annibynnol?_ga=2.217381713.657533466.1568888806-36054218.1549639811)



Mae arnon ni eisiau i'r cynllun  hwn ein helpu ni i gefnogi pobl anabl i fyw bywyd annibynnol.



Fe gynhalion ni gyfarfodydd a digwyddiadau i weld beth roedd pobl yn ei feddwl. Ac fe ofynnon ni i bobl ddarllen ein cynllun ni ac ateb cwestiynau mewn ffurflen ymateb.




Fe gawson ni 67 ffurflen ymateb. Mae'r ddogfen hon yn ymwneud ag atebion pobl i'r cwestiynau yn y ffurflen ymateb.




Mae rhestr faith o sylwadau eraill a roddodd pobl i ni. Gallwch chi ddarllen y rhain ar dudalennau 55 i 74 o'r prif adroddiad:

**Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Crynodeb o Ymatebion. Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol.**



Gallwch chi ddarllen y prif adroddiad yma: llyw.cymru/gweithredu-ar-anabledd-hawl-i-fywn-annibynnol?_ga=2.217381713.657533466.1568888806-36054218.1549639811

# Y pethau ddywedodd pobl

Fel ateb i bron bob cwestiwn, dywedodd pobl wrthyn ni:



- Mae arnon ni angen gweithio'n **gydgynhyrchiadol** â phobl ag anabledd wrth i ni roi ein cynllun ni ar waith.



Mae **cydgynhyrchu** yn meddwl bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael eu cynnwys ym mhob penderfyniad. Maen nhw'n cael eu gweld fel partneriaid cyfartal â phobl broffesiynol.



- Dylai ein holl wasanaethau ni weithio gyda'i gilydd i wneud i'r cynllun ddigwydd. Er enghraifft, dylai gwasanaethau iechyd weithio gyda gofal cymdeithasol a chartrefi.



- Fe ddylen ni gynnwys y **trydydd sector** yn hyn hefyd.

Y **trydydd sector** yw'r enw sy'n cael ei roi i bob mudiad sydd:

- yn cael ei gychwyn i helpu pobl a lleoedd
- ddim yn rhan o'r llywodraeth
- ddim yn fusnes.

Fel elusennau, grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol.



- Dylai'r cynllun wneud mwy i wneud yn siŵr ein bod ni'n cwrdd â gwahanol anghenion pobl. Er enghraifft, bydd gan bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl anghenion gwahanol iawn i bobl sydd ag anableddau corfforol.




- Dylen ni feddwl sut i rannu ein cynllun newydd ni â phawb. Er mwyn iddyn nhw gael dweud eu barn nhw a gwneud iddo fe ddigwydd.


## Cwestiwn 1

**Ydych chi'n cytuno â'n cynllun ni i gefnogi pobl anabl i fyw bywyd annibynnol?**


**Dywedodd pobl:**



- Dydy hi ddim yn glir beth y mae'r cynllun yn ei feddwl gan **fyw'n annibynnol**. I lawer o bobl y mae'n meddwl rhywle i fyw a chefnogaeth i fyw yno. Ond mae'r cynllun yn ymwneud â mwy na hynny.




- Roedd angen i'r pwyntiau gweithredu yn y cynllun fod yn gliriach. Dylen nhw ddweud:
  - beth dylai gael ei wneud.
  - pwy sy'n gofalu am wneud yn siŵr ei fod e'n cael ei wneud.
  - faint o amser y dylai hi ei gymryd i wneud pob pwynt gweithredu.
  - sut gallwn ni ddweud a yw'r weithred wedi gweithio ai peidio.




- Fe ddylen ni fod wedi ysgrifennu fersiwn plant a phobl ifainc o’r cynllun. Er mwyn iddyn nhw fedru cael dweud eu barn nhw yn fwy aml. Ac fe ddylen ni gael cynllun yn arbennig ar gyfer plant a phobl ifainc. Gan nad yw eu materion nhw’n cael eu cynnwys yn llawn yn y cynllun hwn.



- Mae’n beth da ein bod ni wedi cymryd y cynllun hwn allan o **fodel cymdeithasol anabledd**. Ond dywedodd un person ein bod ni wedi gwneud iddo fe edrych fel petai hyn yn syniad newydd. Mae’r model dros 40 mlwydd oed ac mae wedi cael ei ddefnyddio yn ein deddfau ers tair blynedd ar ddeg. Dydy hi ddim yn iawn ein bod ni’n dal i siarad am y ffordd o’i ddefnyddio.



Mae **model cymdeithasol anabledd** yn dweud bod pobl yn cael eu gwneud yn anabl gan rwystrau mewn cymdeithas. Ac nid gan gyflwr eu hiechyd neu eu gwahaniaeth. Rhwystrau yw pethau fel methu mynd i mewn i adeiladau neu gael gwybodaeth mewn ffordd rydych chi’n ei deall.



- Fe ddylen ni feddwl a oes angen diweddaru **model cymdeithasol anabledd**. Fe ddylen ni ei newid ychydig fel ei fod e’n ymwneud mwy â hawliau dynol.

# Cwestiwn 2

**Sut rydyn ni'n cael mudiadau a chymunedau ar draws Cymru i gefnogi'r cynllun a gweithio ar y cynllun?**

**Dywedodd pobl:**



- Mae'n rhaid i ni feddwl sut i rannu'r cynllun newydd â phawb. Mae arnon ni angen gwneud yn siŵr bod pobl yn cael dweud eu barn nhw am y cynllun. A hefyd wybod amdano fe fel eu bod nhw yn medru gwneud iddo fe ddigwydd.



- Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod pawb yn deall model cymdeithasol anabledd. A bod pawb yn deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau.




- Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod arian ar gyfer elusennau a grwpiau sy'n cael eu harwain gan bobl anabl. Er mwyn iddyn nhw fedru cymryd rhan a helpu i gyflawni'r pwyntiau gweithredu yn y cynllun.




- Dylai'r holl gynlluniau sydd wedi cael eu hysgrifennu gan **gyrff cyhoeddus** gynnwys y pwyntiau gweithredu o'r cynllun hwn.

**Cyrff cyhoeddus** yw'r mudiadau sy'n cael arian gan Lywodraeth Cymru i redeg gwasanaethau ar gyfer pobl yng Nghymru.

# Cwestiwn 3

**Sut gallwn ni helpu pobl anabl i fyw bywydau iach a llawn ble maen nhw'n cymryd rhan yn eu cymunedau nhw?**

**Dywedodd pobl:**



- Mae llai o arian ar gyfer cefnogaeth nawr. Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod ni'n medru rhoi'r cynllun hwn ar waith â'r arian sydd gennym ni.




- Does dim gwybodaeth yn y cynllun sy'n dweud o ble y bydd yr arian yn dod i roi'r pwyntiau gweithredu ar waith. Mae hyn yn ein poeni ni.



- Fe ddylen ni roi hwb ymlaen i **Wasanaeth Cefnogi Pobl â Phroblemau Iechyd Meddwl gael Mynediad at Waith** ynghyd â rhaglen **Mynediad at Waith yng Nghymru**.




- Mae'r cynllun hwn yn gweithio'n dda gyda **Chynllun Cyflogadwyedd**. Gyda'i gilydd bydd y ddau gynllun yn helpu pobl anabl i gael gwaith gyda thâl a chadw'r gwaith hwnnw.

▪ Buasai cael cynllun gwobrwyo mewn perthynas ag anabledd i gyflogwyr yn syniad da. Buasai hi'n helpu i wneud  gweithleoedd yn fwy cynhwysol. Ond mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod hyn yn gweithio go iawn.



▪ Fe ddylen ni ddal ati i gefnogi pobl anabl i ddod o hyd i waith gyda thâl trwy wneud pethau fel:




› Dal ati i ariannu'r model o waith gyda chefnogaeth 'Engage to Change'.



› Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael cyfle teg i gael hyfforddiant a gwaith gyda thâl.



› Rhoi cefnogaeth i bobl anabl ddefnyddio'r ganolfan waith.




› Meddwl am roi budd-daliadau ar ben cyflog pobl. Fel bo pobl ddim yn well eu byd trwy beidio â gweithio.



- Dylai'r cynllun gweithredu ganolbwyntio mwy ar y ffordd y gall **technoleg gynorthwyol** helpu pobl anabl i fyw bywydau annibynnol.

> Offer yw **technoleg gynorthwyol** i'ch helpu chi i wneud pethau drosoch chi eich hun. Er enghraifft teclyn codi i'ch codi chi allan o'r gwely neu gyfrifiadur i'ch helpu chi i siarad.



- Dylai'r cynllun ddweud bod pobl yn methu gwneud pethau os nad ydyn nhw'n cael yr wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw.

## Cwestiwn 4

**Sut gallwn ni helpu pobl anabl ddysgu'r medrau sydd eu hangen arnyn nhw i gael swydd trwy gydol eu bywydau?**

**Dywedodd pobl:**



- Mae addysg yn bwysig iawn. Mae'r cynllun gweithredu angen dweud mwy am ysgolion.




- Fe allen ni gael pwynt gweithredu ynghylch **ysgolion cynhwysol**. Ac ynghylch yr wybodaeth a'r cyngor rydyn ni'n ei roi i ddysgwyr ynghylch addysg ar ôl 16 oed.

> Mae **ysgolion cynhwysol** yn ysgolion ble gall pawb fynd i ddysgu, beth bynnag yw eu hanghenion nhw.



- Mae arnon ni angen bod yn gliriach ynghylch y pethau y byddwn ni'n eu gwneud i gefnogi pobl anabl i gael addysg ar ôl 16 oed.




- Bydd deddf newydd **Anghenion Dysgu Ychwanegol** yn helpu pawb i gael addysg a medrau. Yn enwedig gan y bydd **Cynlluniau Datblygu Unigol** yn para hyd 25 oed.



- Mae arnon ni angen cael gwell cyfleoedd i oedolion ddysgu'n rhan-amser. Ac mae arnon ni angen gwneud yn siŵr bod adeiladau ble mae cyrsiau rhan-amser yn digwydd yn hawdd i bobl eu defnyddio.



- Mae arnon ni angen cefnogi plant i gael breuddwydion mwy ar gyfer eu dyfodol nhw. A rhoi gwell cefnogaeth iddyn nhw i'w helpu i gael y cymwysterau sydd eu hangen arnyn nhw i wneud hynny.



- Fe ddylen ni wneud yn siŵr bod arian ar gael ar gyfer cymhorthion dysgu. Er enghraifft, llechi, cyfrifiaduron a chyrsiau. Fe ddylai fod arian ar gael hefyd ar gyfer cyngor ar yrfaoedd a chyngor ar gyfer cyflogwyr.



- Mae **prentisiaethau** yn bwysig iawn. Mae arnon ni angen gwneud mwy o waith i helpu i gefnogi pobl anabl gael **prentisiaethau**.

  **Prentisiaeth** yw pan fydd person yn dysgu medrau ar gyfer gwaith tra bydd yn gweithio.



- Byddai'n dda cynnwys pwyntiau gweithredu o **Brentisiaethau: Cynllun Gweithredu ar Anabledd 2018-2021** yn y cynllun hwn.



- Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod ni'n cynnwys pobl ag anableddau dysgu yn y **rhwydwaith Hyrwyddwyr Anableddau**.



- Fe ddylen ni gael targedau ar gyfer faint o bobl ddylai fod mewn gwaith gyda thâl a faint ddylai gael prentisiaethau.



- Mae ar gyflogwyr angen hyfforddiant ynghylch penodi pobl anabl. Ac ynghylch pa gefnogaeth sydd ar gael.



- Mae arnon ni angen gwneud mwy i gefnogi pobl ifainc anabl sydd ar fin dod yn oedolion. Fe ddylen ni eu cefnogi nhw i anelu at nodau uchel, bod yn hyderus a datblygu medrau.




- Mae arnon ni angen gwell gwybodaeth ar gyfer pobl anabl ac ar gyfer cyflogwyr.

## Cwestiwn 5

**Sut gallwn ni helpu pobl anabl i fyw mewn cartref sy'n addas ar gyfer eu hanghenion?**

**Dywedodd pobl:**



- Dylai'r cynllun ddweud rhywbeth ynghylch y pethau y byddwn ni'n eu gwneud i gael tai mwy **hygyrch**.

> Mae **hygyrch** yn meddwl hawdd dod o hyd iddo fe a hawdd ei gyrraedd er mwyn ei ddefnyddio.



- Yn 2013 fe ddywedon ni y bydden ni'n cadw rhestr o dai hygyrch. Ond nid yw hyn i'w weld yn y cynllun gweithredu.



- Does dim digon o dai fforddiadwy. Mae angen gwneud mwy ynghylch hyn. Does dim digon o ddewis i bobl ar hyn o bryd ac mae hyn yn achosi llawer o broblemau.



- Dylai rhoi mwy o arian gael ei roi i fudiadau er mwyn iddyn nhw fedru rhoi cyngor a gwybodaeth i bobl anabl am dai a budd-daliadau.

  Mae ar yr wybodaeth hon angen bod yn wybodaeth ddiweddar. Ac yn hawdd i bobl gael gafael arni a'i defnyddio.



- Mae arnon ni hefyd angen darparu gwell gwybodaeth ynghylch y ffordd y mae tai yn effeithio ar **les** pobl.

> Mae **lles** yn unrhyw beth sy'n ymwneud â'ch iechyd chi a'ch hapusrwydd chi.



- Mae ar y dreth ystafell wely angen bod yn gliriach. Neu mae angen cael gwared arni.



- Mae arnon ni angen gweithio gyda darparwyr tai a chynghorau i wneud y system ar gyfer gwella cartrefi yn well. Fe ddylen ni fod yn gallu dweud wrthyn nhw pa broblemau y mae pobl yn eu cael.



- Mae ar bobl anabl a'u gofalwyr angen cymryd rhan yn y dylunio wrth i newidiadau gael eu gwneud i dai. O'r dechrau hyd y diwedd.



- Ac mae arnon ni angen meddwl am anghenion pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl wrth gynllunio i addasu cartrefi.





- Dylai fod modd cefnogi pobl anabl i wneud cwyn ynghylch eu landlordiaid. Dylai landordiaid gael eu dal yn gyfrifol am y cartrefi maen nhw'n eu darparu.

## Cwestiwn 6

**Sut gallwn ni gael y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau iechyd i gefnogi pobl anabl i fyw bywyd annibynnol?**

**Dywedodd pobl:**




- Dylai'r arian rydyn ni'n ei gael i ddarparu  iechyd a gofal cymdeithasol ddod o un lle. Mae gormod o ddadlau ynghylch pwy ddylai dalu am wahanol gefnogaeth. Ac mae hyn weithiau yn meddwl nad yw arian yn cael ei wario cystal ag y dylai fe.



- Mae arnon ni angen helpu pobl anabl, teuluoedd a staff cefnogi i ddysgu am dechnoleg gynorthwyol er mwyn iddyn nhw fedru ei ddefnyddio yn fwy aml. Mae arnon ni angen gwneud hyn mewn ffordd sy'n rhoi dewis a rheolaeth i bobl. Fe ddylen ni roi mwy o arian i gefnogi hyn.



- Mae'n anodd cael arian ar gyfer anghenion sy'n mynd ymlaen. Dylai'r cynllun ddweud sut y byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pobl anabl yn dal i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw i fyw'n annibynnol yn y gymuned. Yn enwedig gan ein bod ni bellach wedi rhoi'r gorau i **Grant Byw'n Annibynnol Cymru**.



- Dylen ni roi mwy o gefnogaeth i'r defnydd o **eiriolaeth**. Dylai **eiriolaeth** roi cefnogaeth a galluogi pobl i wneud pethau.

Mae **Eiriolaeth** yn digwydd pan fydd rhywun yn siarad ar eich rhan ac yn eich helpu i ddweud beth sydd arnoch chi eisiau ei ddweud. A chwrdd â'ch anghenion chi.



- Dylen ni wneud gwaith i gael mwy o bobl yn gweithio mewn gofal cymdeithasol.



- Mae arnon ni angen newid agweddau tuag at bobl sy’n cefnogi pobl anabl sydd mewn gwaith gyda thâl. Ar hyn o bryd dydyn nhw ddim yn cael eu talu’n dda nac yn cael eu gwerthfawrogi.



- Dylen ni uno cyrsiau hyfforddiant iechyd a gofal cymdeithasol. A gwneud yn siŵr bod pob aelod o staff ym maes iechyd yn dysgu am fodel cymdeithasol anabledd.



- Dylen ni ychwanegu pwynt gweithredu at y cynllun i weld a yw staff y GIG yn dal i wneud hyfforddiant **Fy Nhrin yn Deg**.

## Cwestiwn 7

**Beth arall y gallwn ni wneud i wella cludiant hawdd ei ddefnyddio a mannau cyfarfod hygyrch ar gyfer pobl anabl?**

**Dywedodd pobl:**



- Dylen ni annog pobl sy’n gweithio ar gludiant cyhoeddus yng Nghymru wneud hyfforddiant cydraddoldeb i bobl anabl. Mae’n rhaid i’r hyfforddiant hwn gynnwys pob math o anabledd. Gan gynnwys anabledd dysgu ac awtistiaeth.




- Mae arnon ni angen gweithio gyda'r cyhoedd i helpu i wneud cludiant yn haws ei ddefnyddio. A rhoi'r gorau i **wahaniaethu yn erbyn** pobl anabl ar gludiant cyhoeddus. Fe allen ni redeg ymgyrch codi ymwybyddiaeth.



Mae **gwahaniaethu yn eich erbyn** yn digwydd pan fyddwch chi'n cael eich trin yn wael oherwydd rhywbeth fel anabledd.



- Dylen ni wneud mwy i ddal darparwyr cludiant yn gyfrifol ynghylch pa mor hawdd yw eu gwasanaethau i'w defnyddio. A gallen ni wneud mwy i annog darparwyr cludiant i fod yn fwy hygyrch.





- Dylen ni gadw'r cynllun prisiau is ar fysus i bobl anabl. A gweithio gyda chynghorau ar ffordd o benderfynu pwy sy'n cael pàs bws rhad ac am ddim i'r anabl. Dylai pob cyngor weithio yn yr un ffordd. Buasai'n beth da petai pasys bws rhad ac am ddim yn gallu cael eu defnyddio ar drenau.



- Yn aml does dim digon o fysus a threnau yn rhedeg yng nghefn gwlad. Mae hyn yn meddwl nad yw pobl anabl sy'n byw yno yn gallu cymryd rhan yn eu cymunedau. Nhw mae **Cludiant Cymunedol** yn bwysig iawn yn y mannau hyn. Mae'n rhaid i ni ddal ati i'w gefnogi.



- Buasen ni'n hoffi i bob bws newydd fedru rhoi gwybodaeth trwy ddefnyddio golwg a sain. Er enghraifft fideos a negeseuon llais wedi'u recordio.





- Dylai gorsafoedd bws a thrên gael gwybodaeth mewn Braille ac unrhyw ddiwyg hawdd ei ddefnyddio arall. Dylai unrhyw newidiadau i wasanaethau gael eu dweud wrth bobl mewn ffordd hygyrch.

## Cwestiwn 8

**Oes unrhyw beth arall rydych chi'n meddwl y dylen ni wneud i helpu pobl anabl?**

**Dywedodd pobl:**




- Bod unigrwydd ac **arwahanrwydd cymdeithasol** yn broblem fawr i bobl anabl. Fe ddylen ni gael gweithred sy'n cysylltu â'r cynllun: **Cysylltu Cymunedau: Mynd i'r Afael ag Unigrwydd ac Arwahanrwydd Cymdeithasol**.



> Mae **arwahanrwydd cymdeithasol** yn digwydd pan fydd pobl yn ei chael hi'n anodd i gyfarfod â phobl eraill. Gallai hyn fod oherwydd ble maen nhw'n byw neu oherwydd eu bod nhw'n ei chael hi'n anodd i fynd allan a chyfarfod pobl.



- Dylai mudiadau anabledd geisio penodi staff sydd â phrofiad o’r materion y maen nhw’n gweithio arnyn nhw.



- Yn yr ysgol fe ddylen ni ddysgu am barch a rhwystro camdriniaeth a gwahaniaethu yn erbyn pobl. Dylai rhieni ddysgu am y pethau hyn hefyd.



- Dylai Llywodraeth y DU wneud y Ddeddf Cydraddoldeb yn well am ddiogelu hawliau pobl anabl a phobl sydd â phroblemau iechyd meddwl mewn gwaith gyda thâl.




- Dylai fod mwy yn cael ei wneud ar gyfer defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain i’r Byddar. Byddai’n dda cael Deddf Iaith Arwyddion Prydain. Fel yn yr Alban.



- Rydyn ni wedi colli llawer o wasanaethau eirioli oherwydd toriadau ar arian. Mae hyn yn meddwl bod cynghorau yn talu am wasanaethau eirioli heb wybod digon am y materion sy’n effeithio ar bobl anabl.



- Dylai'r cynllun gynnwys yr hawl i eiriolaeth dda. Yn enwedig ar gyfer rhieni ag anabledd dysgu sydd angen eiriolwyr sy'n gwybod am anableddau dysgu ac am ddeddfau amddiffyn plant.




- Ni all pobl anabl ddal i gael **Taliadau Uniongyrchol** pan fyddan nhw'n dechrau cael **Gofal Iechyd Parhaus**. Mae arnon ni angen gweithio gyda Byrddau Iechyd i feddwl sut y gall pobl anabl gadw rheolaeth dros eu gofal.




**Taliadau Uniongyrchol** yw'r arian all gael ei roi i chi yn lle gwasanaeth. Gallwch ei ddefnyddio i brynu eich cefnogaeth a'ch gwasanaethau eich hun.



Mae **Gofal Iechyd Parhaus** yn meddwl y bydd y GIG yn talu am eich gofal a'ch cefnogaeth barhaus. Mae'r gofal a'r gefnogaeth yn rhad ac am ddim.




- Mae'n rhaid i ni wneud gwasanaethau gofal llygaid yn well. Mae'n rhaid iddyn nhw fod yn haws dod o hyd iddyn nhw a'u defnyddio nhw. Ac fe ddylen ni ddod i wybod yn gynt a oes gan bobl anhwylder llygaid. Fel arall y mae pobl mewn perygl o golli eu golwg.

# Cwestiwn 9

**Sut rydych chi'n meddwl bod ein cynllun yn helpu neu'n rhwystro pobl rhag dysgu Cymraeg? Beth arall allwn ni wneud?**

**Dywedodd pobl:**




- Does dim byd yn y cynllun am yr iaith Gymraeg. Ac nid yw'n cysylltu â'r cynllun: **Mwy na Geiriau** ar gyfer rhoi gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'n rhaid i ni gysylltu â'r cynllun hwn trwy ein holl weithredoedd.




- Dylai'r holl wybodaeth fod mewn Cymraeg a Saesneg. Ni ddylai pobl orfod gofyn yn arbennig i gael gwybodaeth yn Gymraeg. Dylen ni edrych ar y gost hon.




- Mae arnon ni angen gwneud yn siŵr bod cefnogaeth i bobl anabl ddysgu Cymraeg. Dylai'r cyrsiau fod yn hawdd eu dilyn. Ac fe ddylai'r adeiladau fod yn hawdd eu defnyddio hefyd.




- Dylai fod cefnogaeth i rieni anabl sydd am anfon eu plant i ysgol Gymraeg. Ond sy'n ei chael hi'n anodd i'w chyrraedd am ei bod hi ymhell i ffwrdd.



- Dylen ni helpu staff gwasanaethau ddysgu Cymraeg er mwyn iddyn nhw fedru rhoi gwasanaeth yn y Cymraeg a Saesneg. Does dim pwyntiau gweithredu yn y cynllun hwn i helpu gyda hyn.

## Cwestiwn 10

**Ydych chi am ddweud unrhyw beth arall nad ydyn ni wedi sôn amdano?**

**Dywedodd pobl:**



- Mae'n rhaid i ni ddangos ein bod yn deall pob math o anableddau. Gan gynnwys anableddau neu salwch difrifol na allwch chi eu gweld.



- Mae'n rhaid i ni drin pobl ag anabledd dysgu fel aelodau cyfartal sy'n cymryd rhan weithredol yn ein cymdeithas.




- Does dim yn y cynllun i gefnogi oedolion sydd ag awtistiaeth. Yn aml mae oedolion ag Awtistiaeth yn mynd heb gefnogaeth.




- Nid yw'r cynllun hwn yn dangos bod pobl yn deall y problemau y mae defnyddwyr **Iaith Arwyddion Prydain i'r Byddar** yn eu hwynebu. Mae llawer o ddefnyddwyr **Iaith Arwyddion Prydain i'r Byddar** yn methu cael pob gwybodaeth. Ac yn ei chael hi'n anodd cael y gwasanaethau a'r wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw i fod yn annibynnol.




- Nid yw'r cynllun yn siarad am y straen a'r ofn sy'n cael ei achosi gan doriadau i arian.



- Mae pobl yn poeni y bydd eu budd-daliadau'n cael eu hatal neu eu newid oherwydd gwirfoddoli neu fathau eraill o waith. Mae hyn yn atal pobl rhag gwneud y pethau hyn. Ac mae llawer o bobl yn teimlo dan straen mawr i wneud cais am fudd-daliadau yn y lle cyntaf. Mae arnon ni angen gwneud mwy i gefnogi'r bobl hyn.




- Dylai fod un person sy'n cydgysylltu gofal iechyd ar gyfer pobl sydd ag anghenion iechyd cymhleth.



- Dylai llwybrau i gyrraedd gofal iechyd a gofal cymdeithasol gael eu gwneud yn gliriach i bawb.



- Dylen ni edrych ar gostau gwahanol therapïau fel tylino, aciwbigo a ioga. Gallai'r mathau yma o therapïau helpu i arbed arian yn yr hirdymor. Buasai'n beth da cael system fel Taliadau Uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd.




- Dylai fod mwy o arian i gael nyrsys ysgol.



- Dylai fod dosbarthiadau sy'n ymwneud â **lles mislifol** mewn ysgolion. Dylai gael ei ddysgu gan rywun sydd â phrofiad, sy'n gyfforddus yn ei ddysgu.



Mae **lles mislifol** yn ymwneud â'r mislif – yr adeg pan fydd merched yn gwaedu bob mis. Mae'n cynnwys beth i'w ddisgwyl a sut i ddweud a oes unrhyw beth o'i le.



- Dylai pobl anabl a phobl â gwahanol anhwylderau gael eu gwahodd i ysgolion i siarad am eu bywydau. Mae'n rhaid i ddisgyblion weld gwahanol fathau o bobl a dod i wybod amdanyn nhw. Dylai'r bobl hyn gael eu talu am eu hamser.



- Mae arian yn fater pwysig. Dylen ni edrych ar sut rydyn ni'n rhoi arian i elusennau i gefnogi pobl anabl. Ni ddylai diffyg arian fod yn esgus gan wasanaethau am beidio â rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw i bobl anabl.


# Y pethau sydd wedi digwydd ers ein cynllun diwethaf ar gyfer byw'n annibynnol yn 2013

**Yn y brif ffurflen ymateb gofynnon ni i bobl beth sydd wedi digwydd er 2013 y dylen ni eu cynnwys yn y cynllun.**

**Dywedodd pobl:**



- Mae cludiant cyhoeddus wedi gwella.




- Mae'r ddeddf sy'n ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol wedi newid.




- Mae **Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** wedi bod yn bwysig ar gyfer pobl anabl. Ond mae arnon ni angen tsieco a yw'n gwneud gwahaniaeth.

NHS England

- Dechreuodd GIG Lloegr Safon **Gwybodaeth Hawdd ei Deall.** Mae'n rhaid i wasanaethau iechyd yn Lloegr ddilyn hyn. Dylen ni gael yr un peth.




- Mae newidiadau i arian wedi bod. Mae Grant Byw'n Annibynnol Cymru wedi dod i ben. Mae mwy o bobl yn defnyddio Taliadau Uniongyrchol.




- Dechreuodd **Rhaglen Gwella Bywydau Pobl ag Anabledd Dysgu Llywodraeth Cymru** yn 2018.



- Nid yw gwasanaethau i oedolion, sy'n cael **diagnosis** o awtistiaeth yn hwyr yn eu bywydau, yr un fath â'r gwasanaethau a gafodd eu haddo.



Mae **diagnosio** yn meddwl bod meddyg yn edrych ar iechyd ac ymddygiad person ac yn penderfynu a oes ganddo anhwylder ai peidio.




- Rhoddodd Llywodraeth Cymru arian i gychwyn prosiect '**Engage to Change**'. I helpu pobl 16-25 oed ag anableddau dysgu ac awtistiaeth i ddod o hyd i waith gyda thâl.

# Y camau nesaf



Diolch i bawb a roddodd eu barn i ni.



Rydyn ni wedi gwneud newidiadau i'n cynllun ni a'n pwyntiau gweithredu ni, diolch i'r pethau wnaethoch chi ddweud.



Byddwn ni'n dal ati i weithio ar ein cynllun gweithredu ni. Ac yn dal i feddwl am y pethau y mae pobl wedi'u dweud wrthyn ni.




Bydd fersiwn terfynol **Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol a'r Cynllun Gweithredu** allan ym mis **Medi 2019**.

# Geiriau Anodd

### Arwahanrwydd cymdeithasol

Mae arwahanrwydd cymdeithasol yn digwydd pan fydd pobl yn ei chael hi'n anodd i gyfarfod â phobl eraill. Gallai hyn fod oherwydd ble maen nhw'n byw neu oherwydd eu bod yn ei chael hi'n anodd i fynd allan a chyfarfod pobl.

### Cydgynhyrchu

Mae cydgynhyrchu yn meddwl bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael eu cynnwys ym mhob penderfyniad. Maen nhw'n cael eu gweld fel partneriaid cyfartal â phobl broffesiynol.

### Cyrff cyhoeddus

Cyrff cyhoeddus yw'r mudiadau sy'n cael arian gan Lywodraeth Cymru i redeg gwasanaethau ar gyfer pobl yng Nghymru.

### Diagnosio

Mae diagnosio yn meddwl bod meddyg yn edrych ar iechyd ac ymddygiad person ac yn penderfynu a oes ganddo anhwylder ai peidio.

### Eiriolaeth

Mae eiriolaeth yn digwydd pan fydd rhywun yn siarad ar eich rhan chi ac yn eich helpu chi i ddweud beth sydd arnoch chi eisiau ei ddweud. A chwrdd â'ch anghenion.

### Gwahaniaethu yn erbyn

Mae gwahaniaethu yn eich erbyn yn digwydd pan fyddwch chi'n cael eich trin yn wael oherwydd rhywbeth fel anabledd.

### Gofal Iechyd Parhaus

Mae Gofal Iechyd Parhaus yn meddwl y bydd y GIG yn talu am eich gofal chi a'ch cefnogaeth barhaus chi. Mae'r gofal a'r gefnogaeth yn rhad ac am ddim.

### Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl hawdd dod o hyd iddo a hawdd ei gyrraedd er mwyn ei ddefnyddio.

### Lles
Mae lles yn unrhyw beth sy'n ymwneud â'ch iechyd a'ch hapusrwydd.

### Lles mislifol
Mae lles mislifol yn ymwneud â'r mislif – yr adeg pan fydd merched yn gwaedu bob mis. Mae'n cynnwys beth i'w ddisgwyl a sut i ddweud a oes unrhyw beth o'i le.

### Model cymdeithasol anabledd
Mae model cymdeithasol anabledd yn dweud bod pobl yn cael eu gwneud yn anabl gan rwystrau mewn cymdeithas. Ac nid gan gyflwr eu hiechyd neu eu gwahaniaeth. Rhwystrau yw pethau fel methu mynd i mewn i adeiladau neu gael gwybodaeth mewn ffordd rydych chi'n ei deall.

### Prentisiaeth
Prentisiaeth yw pan fydd person yn dysgu medrau ar gyfer gwaith tra bydd yn gweithio.

### Taliadau Uniongyrchol
Taliadau Uniongyrchol yw'r arian all gael ei roi i chi yn lle gwasanaeth. Gallwch ei ddefnyddio i brynu eich cefnogaeth chi a'ch gwasanaethau eich hun.

### Technoleg gynorthwyol
Offer yw technoleg gynorthwyol i'ch helpu chi i wneud pethau drosoch chi eich hun. Er enghraifft teclyn codi chi i'ch codi allan o'r gwely neu gyfrifiadur i'ch helpu chi i siarad.

### Trydydd sector
Y trydydd sector yw'r enw sy'n cael ei roi i bob mudiad sydd:

- yn cael eu cychwyn i helpu pobl a lleoedd
- ddim yn rhan o'r llywodraeth
- ddim yn fusnes.

Fel elusennau, grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol.

### Ysgolion cynhwysol
Mae ysgolion cynhwysol yn ysgolion ble gall pawb fynd i ddysgu, beth bynnag yw eu hanghenion.